

Bwletin y Farchnad HCC

Mawrth 2019


Mae tueddiadau prynu cig oen ym Mhrydain, yn ôl Kantar Worldpanel, yn dangos perfformiad da i gig oen dros y Nadolig yn 2018, pan brynwyd cig oen yn amlach nag yn y flwyddyn flaenorol. Bydd Bwletin y Farchnad y tro hwn yn ystyried perfformiad cig oen yn ystod y pedair wythnos o gwmpas cyfnod y Nadolig (Rhagfyr).

Yn ôl Kantar Worldpanel, gwariwyd cyfanswm o £59 miliwn ar gig oen yn ystod pedair wythnos cyfnod y Nadolig (hyd at yr wythnos yn diwedd 30 Rhagfyr 2018). Mae hyn yn gynydd o 3.1% (neu £1.8 miliwn) ar wariant yng nghyfnod cyfatebol y flwyddyn flaenorol. Cynyddodd y gwariant fel canlyniad uniongyrchol i gynydd o 6.3% yn y pris cyfartalog i 8.87c/kg mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol. Roedd cyfaint y cig oen a brynwyd yn ystod y cyfnod o 4 wythnos yn 6,646 tonnall fetrig, sef 3.0% yn llai na'r flwyddyn flaenorol, a gallai hyn fod oherwydd y cynnydd a welwyd yn y pris. Cafwyd y gwerthiant mwyaf o gig oen yn ystod yr wythnos cyn wythnos y Nadolig (wythnos 3), sy'n dangos cyfleoedd posibl i geisio cynyddu gwerthiant yn ystod yr wythnosau eraill yn y blynyddoedd nesaf. Hefyd, gall fod y gwariant yn uwch na'r flwyddyn flaenorol am fod diwrnod rhostio ychwanegol (dydd Sul 23 Rhagfyr) cyn Dydd Nadolig. Bydd gan Nadolig 2019, hefyd, ddiwrnod rhostio ychwanegol, ac felly mae potensial i gynyddu gwerthiant cig oen ffres eto eleni.



o 0.4% yn amllder y prynu. Mae'n debygol taw'r rheswm am hyn yw bod siopwyr yn chwilio am gig oen ffres bob tro. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwelir bod y Nadolig yn cael ei ddathlu ar fwy nag un diwrnod, sy'n rhoi cyfleoedd i rostio proteinau heblaw twrci. Gall hyn fod yn ffactor arall a ddylanwadodd ar y cynnydd yn amllder prynu cig oen yn ystod cyfnod y Nadolig.

Cyfran y gwariant ar gategoriâu o gig oen yn ystod cyfnod y Nadolig, 4 wythnos yn diwedd 30 Rhag 2018 (%)



Ffynhonnell: Kantar Worldpanel


Wrth edrych ar y gwahanol gategoriâu o werthiant cig oen, gwelir taw coesau cig oen i'w rhostio oedd yn cyfrif am y gyfran uchaf o wariant, sef £33 miliwn (1.0% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol), a chig oen i'w stiwiw oedd yn cyfrif am y cynnydd mwyaf mewn gwariant o'i gymharu â Nadolig 2017 - i fyny 22.3% i £2.5 miliwn. Dim ond gyda briwgig oen y gwelwyd llai o wario na'r flwyddyn flaenorol, sef gostyngiad o 15.4% i £3.1 miliwn.

Er y prynwyd llai o gig oen na'r flwyddyn flaenorol yn ystod y pedair wythnos dros y Nadolig, cafwyd cynnydd bychan


Yn ystod 52 wythnos y flwyddyn, gwelir bod cyfanswm cyfaint y cig oen a werthwyd wedi gostwng 7% i 62,200 tonnall fetrig, sy'n golygu bod 11% o holl werthiannau'r blwyddyn wedi digwydd yn ystod pedair wythnos y Nadolig. Roedd dros 90% o'r cig oen a werthwyd yn ystod y flwyddyn yn gig ffres. Dim ond 4,730 tonnall fetrig o gig wedi rhewi a werthwyd, sy'n dangos fod defnyddwyr ym Mhrydain yn ystyried cig oen yn gynnrych ffres. Roedd diffyg gwerthiant cig oen wedi rhewi yn dangos hefyd y gellid chwilio am dwf yn y dyfodol trwy'r Datblygiad Cynhyrchion Newydd.



Gwartheg



Prisiau'r farchnad yng Nghymru a Lloegr; roedd y pris cyfartalog ar gyfer gwartheg dethol yn 186.3c/kg yn yr wythnos ddiweddaraf, yn diweddu 02 Mawrth, sef 1.8c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol. Mae prisiau pwysau byw gwartheg dethol wedi bod yn gostwng o'r naill wythnos i'r llall ers troad y flwyddyn, ac mae'r pris diweddaraf yn 9.4c yn is nag oedd flwyddyn yn gynharach. Mae adroddiadau gan y diwydiant yn awgrymu fod prisiau'n dal yn sefydlog a bod digonedd o wartheg yn dod ar y farchnad. Yn yr wythnos yn diweddu 02 Mawrth, roedd y prisiau yn y marchnadoedd da byw amrywio o'r naill gateori o wartheg dethol i'r llall. Cafwyd cynnydd o geiniog i 196.3c/kg ym mhrys yr heffrod a chynnydd o 5.4c i 176.0c/kg ym mhrys y teirw ifainc. Ond gostwng 2.8c i 180.6c/kg wnaeth pris y bustych.




Prisiau pwysau marw yng Nghymru a Lloegr; gostyngodd y pris cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer gwartheg dethol yn ystod yr wythnos yn diweddu 02 Mawrth. Roedd y gostyngiad mwyaf, sef 3.5c yn llai na'r wythnos flaenorol, i 309.1c/kg, ym mhrys teirw ifainc. Gostyngodd pris heffrod 3.4c i 341.6c/kg, ac pris bustych i 341.6 (gostyngiad o 2.5c). Mae pris pwysau marw bustych ar hyn o bryd yn 10.8c (3.1%) yn is nag oedd yn yr wythnos gyfatebol flwyddyn yn gynharach.

Cyfanswm yr allbynnau gwartheg yn lladd-dai y DU; oedd 229,800 o anifeiliaid ar gyfer mis cyntaf 2019. Er bod hyn yn 1.7% yn llai na'r mis cyfatebol flwyddyn yn gynharach, cafwyd cynnydd sylweddol, sef 9.5%, mewn cymhariaeth â'r mis blaenorol a oedd yn fyrrach oherwydd y Nadolig. Yn dilyn cynnydd yng nghyfanswm yr allbynnau, cynhyrchwyd

Mae prisiau gwartheg dethol yn dal i fod dan bwysau am fod cyflenwad helaeth ar gael. Cynhyrchwyd llai o gig eidion na'r llynedd ym mis Ionawr am fod llai o wartheg a theirw llawn dwf ar werth, er y cafwyd cynnydd sylweddol yn niferoedd yr heffrod mewn cymhariaeth â'r mis blaenorol.


mwy o gig eidion a chig llo ym mis Ionawr nag yn y mis blaenorol; roedd y cyfanswm yn 80,000 tonnall fetrig. Fodd bynnag, cynhyrchwyd 1.2% yn llai nag ym mis Ionawr 2018 – i raddau helaeth am fod llai o wartheg llawn dwf ar gael. Roedd niferoedd y gwartheg dethol fwy neu lai yr un peth â'r flwyddyn flaenorol.



Lladdwyd 169,900 o wartheg dethol ym mis Ionawr, sef 10.3% yn fwy nag ym mis Rhagfyr 2018, ac roeddynt yn cyfrif am dros 73% o'r holl wartheg a laddwyd ym mis Ionawr. Gwelwyd cynnydd ym mhob gateori o wartheg dethol o'r naill fis i'r llall, a chafwyd y cynnydd mwyaf, sef 12.4% i 70,000 o anifeiliaid, ymhlith yr heffrod ym mis Ionawr. Lladdwyd mwy o deirw ifainc, hefyd, sef cynnydd o 11.3% i 13,700 o anifeiliaid. A chafwyd cynnydd yn nifer y bustych, o 8.5% i 86,300. Mae'r ystadegau ar gyfer trwybwn y gwartheg dethol ym mis Ionawr, sef cynnydd o 0.2%, yn debyg i'r mis cyfatebol y flwyddyn flaenorol, ac roedd trwybwn yr heffrod yn 4.2% yn uwch nag oedd ym mis Ionawr y llynedd. Mae pwysau carcassau gwartheg dethol wedi bod yn cynyddu er mis Hydref, ac roedd y pwysau cyfartalog ym mis Ionawr, sef 354kg, yn uwch nag a fu oddi ar fis Ebrill 2016.


Yn ogystal, cafwyd cynnydd ym mis Ionawr yn nifer y gwartheg llawn dwf am fod cynnydd o 7.4% i 58,500 yn nifer y buchod llawn dwf. Cafwyd gostyngiad o 3.9% i 1,300 yn nifer y teirw llawn dwf. Mewn cymhariaeth â'r mis cyfatebol y flwyddyn flaenorol, lladdwyd bron 7.0% yn llai o wartheg llawn dwf yn ystod mis Ionawr 2019 – gostyngiad o 6.7% yn nifer y gwartheg llawn dwf a gostyngiad o 7.8% yn nifer y teirw llawn-dwf.

Defaid



Prisiau'r farchnad yng Nghymru; Yn ystod y cyfnod diweddaraf cafwyd cynnydd ym mhris ŵyn pwysau byw am y drydedd wythnos yn olynol. Yn yr wythnos yn diweddu 02 Mawrth, cafwyd cynnydd o'r naill wythnos i'r llall o 3.0c i 191.2c/kg yn Nyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ) Pwysau Byw ŵyn Hen Dymor yng Nghymru. Mae'n is na phris y llynedd (-19.1c), ond yn uwch na'r pris cyfartalog dros bum mlynedd ar gyfer yr wythnos (2013-18: 189.1c/kg). Mae'r cynnydd diweddar hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa ym Mhrydain gyfan; roedd pris yr ŵyn hen dymor yn yr wythnos yn diweddu 02 Mawrth yn 192.8c/kg, sef 3.5c yn fwy nag yn yr wythnos flaenorol. Cafwyd adroddiadau yn ystod yr wythnosau diwethaf fod mwy o ŵyn y tu allan i'r SQQ dymunadwy, sy'n awgrymu fod ŵyn yn rhy drwm neu'n perthyn i ystodau pwysau eraill. Mae adroddiadau'r diwydiant yn awgrymu y byddai gan lawer o brynwr bris uchafswm (y pen), felly mae'r ŵyn trwm yn gweld gostyngiad sylweddol yn eu pris cyfartalog fesul kilo.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae prisiau mamogiaid difa wedi gostwng yn is nag oeddynt yn 2018. Yn yr wythnos yn diweddu 02 Mawrth, fodd bynnag, cynyddodd y pris £6.70 i £52.80. Mae hyn yn £1.30 yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol yn y flwyddyn flaenorol ac yn £3.80 yn is na'r pris cyfartalog dros bum mlynedd.




Prisiau pwysau marw ym Mhrydain; roeddynt yn 415.5c/kg yn yr wythnos yn diweddu 20 Mawrth, sef y pris isaf hyd yma eleni. Mae'r pris pwysau marw hwn yn 78c yn is na'r

Am y tro cyntaf eleni, gostyngodd pris ŵyn pwysau byw yn is na'r flwyddyn flaenorol ddechrau Chwefror wrth i'r cyflenwad barhau'n gryf. Gostyngodd cynnyrch cig defaid o'r naill flwyddyn i'r llall ym mis Ionawr am fod llai o ŵyn dethol wedi cael eu lladd yn ystod y mis – er gwaethaf cynnydd sylweddol yn nhrwybynnau mamogiaid a hyrddod difa.


prisiau anarferol o uchel a gafwyd y llynedd, a bron 16c yn is na'r cyfartaledd dros bum mlynedd. Mae adroddiadau gan y diwydiant yn awgrymu taw llai o alw (gartref a thramor) oedd y prif reswm am hyn, a bod yr ansicrwydd ynghylch y fasnach ar ôl 29 Mawrth hefyd yn cael peth dylanwad.

Nifer yr holl ddefaid a laddwyd mewn lladd-dai yn y DU; 1,117,500 ym mis Ionawr. Mae hyn yn ostyngiad sylweddol o gymharu'r trwybwn ym mis Rhagfyr (-12.0%), ac yn y mis cyfatebol y flwyddyn flaenorol (-5.3%). Roedd nifer yr ŵyn dethol a laddwyd ym mis Ionawr yn 1,035,200, sef 6.9% yn llai nag yn y mis cyfatebol y flwyddyn flaenorol a 13.6% (162,400 o anifeiliaid) yn llai nag ym mis Rhagfyr. Mae'r gostyngiad yn nifer yr ŵyn dethol yn gyfrifol am y gostyngiad yn nhrwybwn yr holl ddefaid, a gellir ei briodoli i'r ffaith fod llai o ŵyn wedi cael eu geni yn 2018.


Lladd ŵyn dethol yn y DG



Mewn cyferbyniad i'r ystadegau ar gyfer ŵyn dethol, cafwyd cynnydd o'r naill fis i'r llall o 1.5% i 142,300 yn nifer y mamogiaid a hyrddod difa a laddwyd yn lladd-dai'r DU ym mis Ionawr. Roedd y nifer hefyd yn sylweddol uwch (+ 9.0%) nag oedd ym mis Ionawr y llynedd. Cynhyrchwyd 24,200 tonnall fetrig o gig defaid ym mis Ionawr, sef 8.8% yn llai nag ym mis Rhagfyr a 2.7% yn llai nag yn y mis cyfatebol y llynedd. Er y cafwyd cynnydd o hanner cilogram i 19.8kg ym mhysau cyfartalog carcassau ŵyn yn ystod mis Ionawr, cynhyrchwyd llai o gig defaid na'r llynedd am fod llai o drwybwn.




Prisiau pwysau marw ym Mhrydain; Roedd prisiau'r holl foch (manyleb yr UE) yn 143.8c/kg yn yr wythnos yn diwedd 17 Chwefror, sef 0.6c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol. O'i gymharu â'r wythnos gyfatebol flwyddyn yn gynharach, mae'r pris ar hyn o bryd yn 5.2c (3.5%) yn is. Yn dilyn y prisiau is a gofnodwyd ddiwedd 2018, mae'r duedd tuag i lawr wedi para yn ystod deufis cyntaf 2019. Er bod y prisiau hyd yma eleni wedi para'n is na'r llynedd, mae adroddiadau gan y diwydiant yn awgrymu y gallai'r prisiau godi yn ystod yr wythnosau nesaf am fod disgwyl y bydd llai o foch ar gael.



Prisiau perchyll ym Mhrydain; Nid oedd pris cyfartalog perchyll 30kg ar gael ar gyfer yr wythnos yn diwedd 16 Chwefror am nad oedd y sampl yn ddigon dibynadwy. Yn yr wythnos yn diwedd 16 Chwefror, cafwyd cynnydd o 44c i £35.83 y mochyn ym mhris perchyll 7kg o'i gymharu ag wythnos yn gynharach - er bod y pris hwn yn 3.7% yn is na blwyddyn yn ôl.

Mae'r pris pwysau marw cyfartalog ar gyfer yr holl foch ym Mhrydain ddechrau Chwefror yn dal i fod yn is nag oedd yn y flwyddyn flaenorol. Cynhyrchwyd mwy o borc ym mis Ionawr nag yn y flwyddyn flaenorol yn dilyn cynnydd sylweddol yn nifer y moch a laddwyd yn ystod y mis. Cyfrannodd y trwybwn hychod a baeddod yn sylweddol tuag at y cynnydd hwn.



Yr holl foch a laddwyd yn lladd-dai'r DU; Lladdwyd cyfanswm o 960,300 ym mis Ionawr, sef 12.7% yn fwy nag yn y mis blaenorol. Roedd y trwybynnau, hefyd, yn 2.9% yn uwch nag yn y mis cyfatebol flwyddyn yn gynharach. Am y lladdwyd mwy o foch yn ystod y mis, cafwyd cynnydd o 1.5% yng nghyfanswm, y cig moch a gynhyrchwyd ym mis Ionawr, mewn cymhariaeth â mis Rhagfyr a mis Ionawr y llynedd. Roedd cyfanswm y cig moch a gynhyrchwyd yn ystod y mis yn 82,000 tonnau fetrig.

Lladdwyd 935,800 o foch heb fagu yn lladd-dai'r DU ym mis Ionawr, sef 26,000 (2.6%) yn fwy nag ym mis Ionawr y llynedd, a 12.0% yn fwy nag yn y mis blaenorol. Lladdwyd 24,500 o hychod a baeddod yn ystod mis Ionawr. Mae hyn yn 14.4% yn fwy nag yn y mis cyfatebol flwyddyn yn gynharach. Roedd carcassau hychod a baeddod, ar gyfartaledd, yn 3.1kg yn drymach nag ym mis Ionawr y llynedd. Byddai carcassau trymach a mwy o foch wedi cyfrannu at y cynnydd yn y cig moch a gynhyrchwyd yn ystod y mis.